# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

**RHAN 3**

CODI TALIADAU AM FAGIAU SIOPA

*Gweinyddu a gorfodi*

PROSPECTIVE

**60 Gorfodi**

(1) Caiff rheoliadau bagiau siopa roi pwerau neu ddyletswyddau i weinyddwr neu osod pwerau neu ddyletswyddau arno i orfodi darpariaeth a wneir gan y rheoliadau.

(2) Caiff y rheoliadau (er enghraifft) roi pwerau i weinyddwr—

(a) i'w gwneud yn ofynnol dangos dogfennau neu ddarparu gwybodaeth, neu

(b) i holi gwerthwr nwyddau neu swyddogion neu gyflogeion gwerthwr.

(3) Caiff y rheoliadau hefyd roi pwerau i weinyddwr holi person y mae'r gweinyddwr yn credu'n rhesymol ei fod wedi derbyn unrhyw enillion net o'r tâl neu swyddogion neu gyflogeion person o'r fath.

(4) Rhaid i reoliadau bagiau siopa sy'n rhoi pŵer o fewn is-adran (2) gynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau nad yw'r pŵer yn cael ei arfer gan weinyddwr ond pan fo'r gweinyddwr yn credu'n rhesymol bod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad yn y rheoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 60 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 60 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 17 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(a)
- s. 6(10)(d) substituted by S.I. 2024/706 reg. 22(b)